**P-04-613 Dylai Aelodau'r Cynulliad wrthod yr argymhelliad i gynyddu eu cyflogau 18%**

**Testun y ddeiseb**

Gyda phobl sy'n gweithio ar y rheng flaen yn y sector cyhoeddus yn cael toriadau i'w cyflogau mewn termau real, rwy'n annog Aelodau Cynulliad i wrthod yr argymhellion i gynyddu eu cyflog 18%. Drwy dderbyn y codiad cyflog hwn, neu unrhyw godiad cyflog, tra bod y mwyafrif llethol o weithwyr y sector cyhoeddus yn wynebu toriadau i'w cyflogau a diswyddiadau, byddai Aelodau'r Cynulliad yn cyfleu'r neges a ganlyn i'r bobl y maent yn eu cynrychioli: "Rydym ni'n iawn, o leiaf, cadwch eich dwylo oddi ar fy mhentwr arian i" (cyfieithiad o ran o'r gân Money gan Pink Floyd), gyda thoriadau yn y sector cyhoeddus, rhewi cyflogau a diswyddiadau yn talu am eu "pentwr" hwy. Hoffwn gynnig fod codiad cyflog Aelodau'r Cynulliad, rhewi a thorri ar gyflogau yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd i weithwyr ym maes addysg, y GIG, yr Heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol.

**Prif ddeisebydd:** David Swain

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:**

**Nifer y llofnodion:** 12